








# ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2023/24

CYNGOR GWYNEDD











Annwyl Syr / Madam.

Dim ond i dynnu eich sylw at y ffaith y gallai dwy o'ch staff, trwy eu diwydrwydd a'u gofal, fod wedi achub bywyd fy mam.

Fe ddatblygodd Mam haint yn y craith o'i llawdriniaeth diweddar ar ei gallbladder, sydd wedi ei leoli a'i guddio wrth ymyl ei bron dde. Gallai fod wedi ei fethu mor hawdd, ond, trwy eu diwydrwydd, fe dynodd y ddwy ofalwraig rhagorol yr haint i'n sylw. Fel arall gallai fod wedi troi yn sepsis.

Mae'r tîm cyfan yn rhagorol ac yn ganmoladwy yn eu gwaith. Maent bob amser yn positif ac mae ganddynt wên ar eu hwynebau. Mae fy mam yn edrych ymlaen yn fawr at eu hymweliadau ac maent yn codi ei hwyliau ar unwaith. Mae nhw'n cael effaith enfawr ar ei lles ac yn rhoi'r teimlad da yn ôl yn ei bywyd.

Ni allaf bwysleisio digon pa mor bwysig yw'r gweithwyr yma gan eu bod yn gwella nid yn unig bywydau cleifion / cleientiaid ond hefyd bywydau y teuluoedd agos sy'n gofalu amdanynt.

**Neges gan aelod o deulu yn diolch i ofalwyr cartref**

# CYNNWYS

**Tudalen**


| | |
|---|---|
| Crynodeb y Cyfarwyddwr: Trosolwg o'r flwyddyn a fu | 4 |
| Cyd-Destun: Arweinyddiaeth, Gweithlu, Arian a Mwy na Geiriau | 7 |

**ASESU PERFFORMIAD FESUL THEMA**

| | |
|---|---|
| Pobl: Llais a Rheolaeth | 10 |
| Atal | 15 |
| Partneriaeth | 20 |
| Lles | 25 |

| | |
|---|---|
| Gwybodaeth bellach | 30 |


- *Os ydych chi angen yr adroddiad yma mewn iaith neu fformat arall, ffoniwch ni ar 01766 771000 neu e-bostiwch Cydraddoldeb@gwynedd.llyw.cymru*
- *If you require this report is an alternative language or format, please call us on 01766 771000 or e-mail Equality@gwynedd.llyw.cymru*
- Якщо вам потрібен цей звіт в іншому форматі або іншою мовою, зателефонуйте нам за номером 01766 771000 або надішліть електронну пошту Equality@gwynedd.llyw.cymru
- *Jeśli potrzebujesz tego raportu w innym języku lub formacie, zadzwoń do nas pod numer 01766 771000 lub wyślij e-mail do Equality@gwynedd.llyw.cymru*
- 如果您需要该报告用其它语言或格式，请致电 *01766 771000* 或发送电子邮件给我们： Equality@gwynedd.llyw.cymru
- إذا أردت هذا التقرير بلغة أو تنسيق (شكل) بديل، فيرجى الاتصال بنا على ٠١٧٦٦ ٧٧١٠٠٠ أو البريد الإلكتروني Equality@gwynedd.llyw.cymru

*** Er mwyn diogelu preifatrwydd unigolion, rydym wedi newid enwau yn y straeon sy'n ymddangos yn yr adroddiad hwn.***

# TROSOLWG O'R FLWYDDYN A FU

**4,488** ↓ 70

O GYSYLLTIADAU AR GYFER OEDOLION



**7,230** ↑ 55

O GYFEIRIADAU PLANT



**5,576** ↑ 11

O GYFEIRIADAU IECHYD MEDDWL



NIFER SY'N DERBYN GWASANAETH TELEOFAL (31.03.24)

**1,647** ↓ 16



NIFER SY'N DERBYN TALIADAU UNIONGYRCHOL (MAWRTH 2024)

**232** ↑ 24

*15% o'r unigolion sy'n derbyn gwasanaethau gan yr Adran Oedolion, yn ei dderbyn drwy taliadau uniongyrchol



**281** O BLANT MEWN GOFAL

(↔ DIM NEWID)

*14 yn Geiswyr Lloches ar eu Pen eu Hunain (UASC)



NIFER YR ORIAU GOFAL CARTREF SY'N CAEL EI DDARPARU FESUL WYTHNOS ....



**8,782** ↓ 696

...OND, RYDYM YN DAL I CHWILIO I DDARPARU



**950** ↓ 213

O ORIAU YR WYTHNOS

NIFER O BOBL HŶN MEWN CARTREF PRESWYL NEU NYRSIO (31.03.24)



**803** ↑ 21

**97%** ↑ 2%

O GYNADLEDDAU ACHOS LLE BU CLYWED LLAIS / BARN Y PLENTYN



**94%** ↑ 3%

O GYFEIRIADAU DIOGELU OEDOLION YR YMATEBWYD IDDYNT O FEWN 7 DIWRNOD

NIFER O OFALWYR WEDI EU HASESU

**255** ↑ 45



**160** ↑ 39

O OFALWYR IFANC YN DERBYN CEFNOGAETH



**79%** ↓ 5%

O GYFEIRIADAU DIOGELU PLANT YR YMATEBWYD IDDYNT O FEWN Y CYFNOD STATUDOL



NIFER O OEDOLION SYDD Â CHYNLLUN GOFAL (31.03.24)

**2,346** ↓ 124

# Dathlu Llwyddiannau...


Bu'r flwyddyn brysur hon yn llawn o'i heriau, ac eto, braf yw gallu dathlu llwyddiannau a chydnabod gwaith caled a da ein gweithlu:

## Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn torri cwys newydd

Cydnabuwyd gwaith arloesol Tîm Emrallt gyda phlant a phobl ifanc sy'n dangos ymddygiad rhywiol niweidiol ac amhriodol, mewn cynhadledd ryngwladol yng Nghaerdydd ym **mis Awst**.

Mae'r tîm, a sefydlwyd yn 2019, yn canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac yn cydweithio â gweithwyr proffesiynol amrywiol i ddarparu hyfforddiant ac arweiniad hanfodol. Hyd yma, hyfforddwyd dros **1,100** o ymarferwyr a Tîm Emrallt yw'r cyntaf erioed i ddarparu'r math yma o wasanaeth yn gwbl ddwyieithog.

## Meddalwedd Boardmaker yn Llyfrgelloedd Gwynedd




Cyd-weithiodd Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyngor Gwynedd efo'r Adran Plant i sicrhau darpariaeth ychwanegol i'r rhai sydd â chyflyrau ar y sbectrwm awtistig, anableddau dysgu ac anhwylderau lleferydd.

Ers **mis Tachwedd** mae gan deuluoedd fynediad at feddalwedd Boardmaker sy'n galluogi creu taflenni cyfathrebu lluniau (PCS) wedi ei deilwra yn llyfrgelloedd Caernarfon, Porthmadog a Dolgellau.

## Cydweithio â GISDA i gefnogi pobl ifanc sy'n wynebu digartrefedd

Mewn partneriaeth â'r elusen GISDA, mae'r Cyngor yn cefnogi prosiect i adnewyddu hen adeilad Natwest yng Nghaernarfon er mwyn darparu llety a chanolfan amlbwrpas i bobl ifanc fregus. Agorwyd 'Lle Da' yn swyddogol ym **mis Ionawr** ac mae'n cynnwys pedwar o fflatiau, caffi, canolfan hyfforddiant a gofod ar gyfer cynnal gweithgareddau amrywiol.

Mae'r prosiect yn gam hanfodol ymlaen yn ein hymdrechion i gefnogi pobl ifanc sy'n wynebu digartrefedd yng Ngwynedd, ac yn enghraifft wych o sut y gall Awdurdod Lleol, Llywodraeth, a sefydliad trydydd sector weithio gyda'i gilydd i wneud y mwyaf o'u hadnoddau ac arbenigedd.







Lluniau GISDA Cyf



James ac Audrey, Cynllun Rhannu Cartref

## Gwynedd yn nodi llwyddiant cyntaf y Cynllun Rhannu Cartref

Ym **mis Chwefror**, clywsom am hanes Audrey a James, y ddau wedi cyfarfod drwy Gynllun Rhannu Cartref Gwynedd. Aiff y Cynllun i'r afael â heriau tai drwy gysylltu'r rhai sydd angen cymorth â'r rhai sy'n chwilio am dai fforddiadwy.

> "*Mae James yn gwmni mor dda ac yn fy helpu o gwmpas y tŷ. Mae'n coginio prydau blasus ac yn helpu gyda siopa ac ychydig o arddio. Mae cael James yma yn rhoi tawelwch meddwl a chwmnïaeth i mi.*"
>
> Audrey (Cynllun Rhannu Cartref)

## Cyflwyno cais archrediad Oed Gyfeillgar

Drwy gydol y flwyddyn gweithiwyd tuag at gyflawni achrediad Oed Gyfeillgar, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth, cydweithio â phartneriaid, ymgysylltu â chymunedau, a blaenoriaethu hygyrchedd a chynwysoldeb mewn gwasanaethau. Rhoddwyd cais swyddogol Gwynedd i ddod yn aelod o rwydwaith Dinasoedd a Chymunedau sy'n Oed Gyfeillgar ym **mis Mawrth.**

# ...a chydnabod heriau

Nid da lle gellir gwell, a gwyddom fod heriau sylweddol yn wynebu'r gwasanaethau cymdeithasol yn genedlaethol ac yng Ngwynedd.

## Recriwtio

Erys heriau recriwtio gweithlu digonol ar gyfer darparu gofal effeithiol i ddiwallu'r angen, a bu i'r cynnydd mewn costau drwy chwyddiant, cynnydd mewn galw a chynnydd mewn achosion cymhleth gael effaith andwyol ar ein cyllidebau yn ystod y flwyddyn a'n gallu i gynllunio'n hir-dymor.

## WCCIS

Gwyddys hefyd am risgiau arwyddocaol eraill sy'n ein hwynebu. Daw newidiadau demograffeg â'u heriau rheolaidd a chynyddol, ac o ran gweithdrefnau'r gwasanaethau cymdeithasol daw gwasanaeth y system gyfrifiadurol WCCIS i derfyn ar ddiwedd 2025 a rhagwelir heriau i'r amserlen at sefydlu system newydd.

## Achosion cyfreithiol

Bu achosion hefyd yn ystod y flwyddyn o droseddu yn erbyn plant. Tra fo achosion cyfreithiol a'r llysoedd yn gwneud eu gwaith, mae'n bwysig ein bod fel gwasanaethau cymdeithasol yn dysgu'n gyson o'r digwyddiadau hyn drwy adolygiadau ac yn gwella'n gwasanaethau i sicrhau diogelwch y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

# CYD-DESTUN: ARWEINYDDIAETH, GWEITHLU, ARIAN A MWY NA GEIRIAU

## Arweinyddiaeth

Anelodd ymdrechion trwy gydol y flwyddyn i bontio'r bwlch rhwng yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Plant a Chymorth i Deuluoedd. Gyda newidiadau ar y gweill i sefydlu Swyddfa Genedlaethol ar gyfer gwasanaethau gofal yng Nghymru a fframwaith comisiynu newydd, roedd yn amser delfrydol i ail-edrych ar strwythurau mewnol.

O ddechrau mis Mai 2024, bydd yr Uned Fusnes ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys y Tîm Comisiynu, yn adrodd yn uniongyrchol i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol. Sicrha hyn weithrediad effeithlon ar draws y ddwy adran, gan ganiatáu ffocws cliriach ar y materion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ddarpariaeth gwasanaeth.

Ers y 90au bu symudiad tuag at Reolwyr Gofal ac i droi Gwasanaethau Cymdeithasol yn ddull o asesu am ofal a'i ddarparu. Yn fwy diweddar, ac yn benodol ers cyflwyno'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ym 2014, bu datblygu ar waith cymdeithasol a therapi galwedigaethol, gan eu gweld fel ymyraethau ynddynt eu hunain. Un o amcanion y Cyfarwyddwr yw hybu proffesiynoldeb yn y maes ac i sicrhau fod y cymwysterau priodol gan y swyddogion cywir i'r dyfodol.

Cyfarfu y Cyfarwyddwr â Phennaeth yr Adran Oedolion a'r Adran Plant bob dau fis i fynd i'r afael â materion polisi cenedlaethol, risgiau, a dathlu llwyddiannau. Yn ystod 2024/25 bwriedir cynnal Tîm Rheoli Gwasanaethau Cymdeithasol, gan ddod a rheolwyr y ddwy adran at ei gilydd i fynd i'r afael â heriau cyffredin.

**1,505**
NIFER O STAFF A GYFLOGWYD YN Y GWASNETHAU CYMDEITHASOL

CYLLIDEB NET YR ADRAN OEDOLION IECHYD A LLESIANT
**£81M**


CYLLIDEB NET YR ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD
**£23M**


GWARIANT DROS Y GYLLIDEB 2023/24
**£6.5M**

NIFER O GWESTIYNAU OFYNNWYD DRWY'R DREFN "HOLI'R CYFARWYDDWR"
**62**

NIFER A FYNYCHODD SESIYNAU "DIOLCH" I OFALWYR (MEDI-HYDREF 2023)
**181**

Parhaodd llywodraethu gwleidyddol o fewn y Cyngor yn gadarn dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnig cefnogaeth glir a chraffu effeithiol. Mae'r strwythur herio perfformiad adrannol yn sefydlog, gydag ymdrechion parhaus i wella tryloywder a chywirdeb wrth adrodd ar ddata perfformiad.


Cyng. Dilwyn Morgan a Rheolwr Cynllun Rhannu Cartref



Cyng. Elin Walker gyda Phennaeth yr Adran Plant a'r Tîm Teuluoedd yn Gyntaf

## Gweithlu

Ni fu'n flwyddyn heb ei heriau a gwerthfawrogir y gwaith caled a wneir gan y gweithlu, yn aml o dan amgylchiadau anodd iawn. Mae Gwynedd yn ffodus iawn o gael gweithlu rhagorol ac amlygwyd eu hymroddiad yn ystod ymweliadau gan y Cyfarwyddwr, Pennaethiaid Adran ag Aelodau Cabinet â thimau gwaith cymdeithasol, gofalwyr cartref, a chartrefi preswyl ledled y sir.

Ein nod yn ystod y flwyddyn fu gwella'r cyfathrebu â'n staff, ac fe sefydlwyd trefn 'Holi'r Cyfarwyddwr' ar gyfer derbyn ac ymateb i gwestiynau dienw, yn ogystal â gweithio ar gyd-lunio siarter ar gyfer gofalwyr cartref. Mae cyfarfodydd rheolaidd gyda'n Timau Adnoddau Cymunedol (sef y timau lleol o weithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol ac ymarferwyr gwaith cymdeithasol sy'n gyfrifol am ofal pobl hŷn) hefyd wedi bod yn hollbwysig.

Tra bod nifer y swyddi gwag yn parhau yn debyg i'r hyn a welwyd llynedd, mae denu a chadw gweithlu yn dal i fod yn rhwystrau sylweddol.

Cynhaliwyd ymgyrchoedd recriwtio parhaus ar draws y sir er mwyn ceisio ymateb i'r her sy'n ein hwynebu heddiw a cynhaliwyd sawl diwrnod agored ar draws y sir ar y cyd gyda colegau lleol.

> ***"Fe wnaeth hyn fy helpu i benderfynu mai bod yn therapydd galwedigaethol yw'r hyn rydw i eisiau ei wneud. Mi ddysgais i lawer o bethau newydd ac fe'm gwnaeth yn awyddus i weithio yn y maes meddygol hwn yn y dyfodol."***
>
> Mynychwr gweithdy yng Ngholeg Llandrillo Menai, Dolgellau

## Academi Gofal

Edrychwn hefyd i geisio taclo rhwystrau recriwtio drwy gyflwyno Academi Gofal. Bydd yr academi yn ddatblygiad cyffrous fydd yn cynnig llwybr gyrfa mewn gofal cymdeithasol, o swyddi rheoli i rolau arbenigol fel gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol neu nyrsio. Bydd pawb sy'n mynd drwy'r Academi yn cael profiad traws-sector gwerthfawr.

Ariannwyd y cynllun o Ebrill 2024 ymlaen a gobeithir y byddwn yn croesawu ei hyfforddeion cyntaf yn fuan yn 2024/25.

## Cyflogau a llwybr gyrfa

Bu galw yn genedlaethol am strwythur cyflogau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n adlewyrchu'r drefn a ddefnyddir ar gyfer athrawon. Er gwaethaf y brys a amlygwyd mewn adroddiad diweddar ar ddatblygu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol, arafodd y cynnydd.

Yng Ngwynedd, mae gweithwyr cymdeithasol a'n therapyddion galwedigaethol yn hanesyddol wedi ennill llai na'u cymheiriaid ledled Cymru, gan wthio ein gweithwyr proffesiynol profiadol i chwilio am gynigion gwell gerllaw.

Ar ôl ymgysylltu â'n gweithlu, cynigiodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen dwy raddfa gyflog newydd yn dechrau ym mis Mehefin 2024—un ar gyfer glas-weithwyr newydd gymhwyso ac un arall ar gyfer rôl arweiniol.

Bydd y newid hwn yn dod â chyflogau Gwynedd yn fwy cyfartal â'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol eraill, gan anelu at gadw ein staff gwerthfawr a sefydlogi ein gweithlu.




Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn sesiwn Diolch i Ofalwyr




Pennaeth yr Adran Oedolion mewn sesiwn Diolch i Ofalwyr

## Adnoddau ariannol

Dengys cyllideb refeniw 2023/24 fod gwasanaethau cymdeithasol Gwynedd yn gyfrifol am gyllideb gros o **£127 miliwn,** gan danlinellu ei rôl fel conglfaen yr economi leol.

Serch hynny, ni fu'n flwyddyn hawdd yn ariannol i'r gwasanaethau cymdeithasol ac fel y disgwylir, fe roddodd yr argyfwng costau byw, chwyddiant a chostau annisgwyl megis ffioedd uwch ar gyfer cartrefi nyrsio allanol a lleoliadau preswyl y tu allan i'r sir i blant bregus, straen ar gyllidebau'r ddwy adran.

Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol roedd yr Adran Oedolion yn gwario **£3.8M** uwchlaw eu cyllideb (net **£81M**) a'r Adran Plant yn gwario **£2.5M** yn ychwanegol (net **£23M**).

Yn ychwanegol I'r heriau uchod, gwelwyd yr angen i wneud arbedion pellach yn y cyllidebau a bu i'r adrannau baratoi a gweithio i wireddu arbedion gwerth miliynau o bunnoedd.

Yn ail ran y flwyddyn ariannol bu'r gwasanaethau cymdeithasol yn paratoi ymhellach at doriadau yn y cyllidebau ar gyfer y flwyddyn 2024/25.

## Mwy na geiriau

Pan yn derbyn gwasanaethau gofal neu iechyd, mae cyfathrebu yn eich iaith gyntaf yn hanfodol, nid yn ddewisol, ac ymrwymwyd i'r Cynnig Rhagweithio i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg heb ofyn, ar bob achlysur. Mae'r grŵp Mwy na Geiriau yn cyfarfod yn fisol i hybu dwyieithrwydd y gweithlu, diwygio ffurflenni, atgoffa darparwyr o'u dyletswydd i ddefnyddio datganiadau cyhoeddus dwyieithog, ac addasu geiriad contractau gwasanaethau gofal allanol i sicrhau cydymffurfiaeth.

Fe wynebir rhwystrau recriwtio, yn benodol wrth geisio denu therapyddion galwedigaethol a gofalwyr cartref sy'n siarad Cymraeg. Amlygwyd heriau hefyd i'n gallu i weithio'n ddwyieithog wrth gydweithio â phartneriaid, a dechreuwyd weithio gyda Chanolfan Bedwyr i ystyried dulliau cof cyfieithu er mwyn hwyluso gweithio'n aml-asiantaeth.

Cydweithir â grwpiau academaidd a rhanbarthol i fireinio arferion gwasanaethau dwyieithog. Ymhlith yr ymdrechion sydd i ddod mae cynhyrchu fideos addysgol a chymryd rhan mewn ymchwil PhD i ddyfnhau ein dealltwriaeth o effeithiau gwasanaethau Cymraeg.

## *Gwaith Ymchwil: Llechen Lân*




*Ym mis Mehefin 2023, dechreuodd tîm prosiect Llechen Lân gyfarfod er mwyn cynnal ymchwil cynhwysfawr er mwyn datgelu gwir gost darparu gwasanaethau oedolion, gan osod y llwyfan ar gyfer cynllunio strategol dros y 10-20 mlynedd nesaf.*

*Dadansoddir data lleol, sirol, cenedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys manylion y cyfrifiad, cyllidebau a rhagamcanion poblogaeth. Mae canfyddiadau'r ymchwil yn pwyntio at angen dybryd am newid: dengys fod ein modelau gofal cymdeithasol presennol yn anghynaladwy o ystyried newidiadau demograffeg a galw cynyddol oherwydd y cynnydd ym mhoblogaeth dros 65 oed.*

*Bydd camau gweithredu a chynllunio pellach yn fuan yn 2024/25 er mwyn ymateb i'r her a wynebwyd.*




Diwrnod Dementia, Mehefin 2023
(Llun gan Ian Smith)

# POBL: LLAIS A RHEOLAETH



| | | | |
|---|---|---|---|
| 37 O UNIGOLION EFO ANABLEDD DYSGU MEWN GWAITH CYFLOGEDIG | 97% O GYNADLEDDAU ACHOS LLE BU CLYWED LLAIS / BARN Y PLENTYN | NIFER O BLANT YN DERBYN CEFNOGAETH TÎM TROBWYNT (CHWEFROR 2024) 63 | NIFER SYDD YN DERBYN GWASANAETH GOFAL CARTREF (MAWRTH 2024) 841 |
| NIFER SY'N DERBYN TALIADAU UNIONGYRCHOL (MAWRTH 2024) 232 | NIFER SY'N DERBYN GWASANAETH TELEOFAL (31.03.24) 1,647 | 100% WEDI CAEL PROFIAD DA GYDA'R CYMORTH A GAWSANT GAN TÎM LLWYBRAU LLESIANT (CHWARTER 4) | NIFER SYDD YN AROS AM WASANAETH GOFAL CARTREF (MAWRTH 2024) 128 |

# Beth aeth yn dda?

Mae trigolion yn ganolog i wasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd. Pwysig ydi sicrhau fod y ddarpariaeth a gynigir wedi cael ei gyd-greu a'i gyd-gynhyrchu er mwyn ymateb i anghenion unigolion.

## Gwasanaethau Plant

Canmolodd Arolygaeth Gofal Cymru (AGC) y Gwasanaethau Plant yn ddiweddar am flaenoriaethu lleisiau a phrofiadau plant mewn penderfyniadau diogelwch.

Mae'r timau yn gweithio'n agos gyda theuluoedd, gan ddeall eu heriau a chydweithio â rhieni i wella eu sefyllfaoedd. Mae'r dull hwn yn helpu i atal lleoli plant mewn gofal yn ddiangen.

> ***"Diolch am bopeth. Dydw i ddim yn siŵr fyswn i'r person ydw i heddiw hebddoch chi yno i'm harwain a gwrando arna i a dysgu'r holl bethau dwi'n gwybod rŵan i mi. Diolch eto am bopeth."***

Rhiant (Cefnogaeth Tîm Trobwynt)

> ***"Rydych chi fel mam na chefais i erioed – rydych chi'n gwrando arna i ac yn cadw at eich gair"***

Plentyn (Cefnogaeth Tîm Trobwynt)

## Gwasanaethau Anabledd Dysgu

Buddsodda aelodau staff y Gwasanaethau Anableddau Dysgu amser i ddeall anghenion a diddordebau pob person, gan ganolbwyntio ar amcanion unigol, boed yn ddiogelwch ar-lein, rheoli cyllidebu, hylendid personol, neu gyfleoedd gwaith.

Trwy wrando'n gyson ar ddiddordebau defnyddwyr, mae staff yn dod o hyd i ffyrdd o'u cynnwys mewn gweithgareddau cymunedol presennol neu'n dechrau grwpiau newydd lle bo angen. Mae tîm Llwybrau Llesiant yn trefnu gweithgareddau sy'n amrywio o dripiau sinema, nosweithiau karaoke yn y dafarn, i gystadlaethau golff a chynghrair boccia - hynny oll wedi arwain gan lais yr unigolion.

Cynydda'r nifer sydd ar y llwybr cyfleon gwaith yn sylweddol o **58** ym Ebrill 2023 i **99** erbyn Mawrth 2024. Bellach mae **37** unigolyn mewn gwaith cyflogedig, gyda cytundebau mewn lle efo busnesau lleol a Chyngorau Tref a Cymuned.

Derbyniwyd adborth cadarnhaol am helpu pobl i ailgysylltu â'r gymuned, gwneud ffrindiau, a dysgu sgiliau newydd ar ôl y pandemig. Mae cyfranogwyr yn canmol parodrwydd y tîm i dderbyn awgrymiadau, gan amlygu canlyniadau sydd yn cynnwys gwell lles corfforol ac emosiynol, llai o bryder, ac ymdeimlad cryf o gymuned.



Twtio'r ardal, gwaith i Gyngor Tref Caernarfon



Digwyddiad Fforwm Pobl Hŷn

**Gwynedd Oed Gyfeillgar**

Bu’r Adran Oedolion hefyd yn trefnu fforymau i wrando a chlywed lleisiau oedolion hŷn ar draws y sir, tra’n gweithio tuag at achrediad Gwynedd Oed Gyfeillgar.

Gan fod Gwynedd yn ardal eang yn ddaearyddol, treialwyd llawer o ddulliau gwahanol gan gynnwys fforymau lleol lle rhannwyd gwybodaeth a chlywyd gan unigolion. Yn ogystal â threfnu fforymau, mynychwyd cyfarfodydd grwpiau sydd eisoes yn cyfarfod i gynnal sgwrs a thrafodaeth gyda’r rhai oedd yn mynychu.

# Sut gellir wella?

## Darparu Gwasanaethau Oedolion Hŷn


Dibynna Gwynedd fwy ar ofal cartref a chartrefi preswyl ar gyfer pobl hŷn na siroedd eraill Cymru, tra’n tanddefnyddio taliadau uniongyrchol, technoleg, a dulliau gweithredu yn y gymuned. O ganlyniad, mae prinder gweithlu, gorwariant sylweddol ar wasanaethau statudol, a risg bod unigolion yn cael eu hatal rhag byw mor annibynnol â phosibl ac yn methu rheoli eu gofal.

Ar gyfartaledd darparwyd **8,782 o oriau** o ofal cartref yr wythnos yn ystod 2023/24. Dyma ffigwr syfrdanol, ac mae’n werth ei ddathlu.

Ar y llaw arall, mae rhestrau aros yn parhau ac rydym yn methu darparu **950 o oriau** wythnosol.Tra bod hyn yn leihad yn y nifer sy’n disgwyl am ofal o gymharu â 2022/23 ac yn symud tuag at y cyfeiriad cywir, mae’r cynnydd yn y maes gwaith wedi bod yn arafach na’r disgwyl.

Er gwaetha’r bwriad, nid oes gan weithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol yr adnoddau sydd eu hangen arnynt er mwyn gweithio yn seiliedig ar gryfderau bob tro. Ni allant ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd arloesol oni bai fod gwasanaethau gwahanol ar gael iddynt gyfeirio atynt. Yn wyneb yr heriau demograffeg mae’n rhaid symud i ffwrdd o ddulliau traddodiadol a meithrin hyder wrth ddarparu gofal yn wahanol. Rhaid cymryd camau pellach ar fyrder i fynd i’r afael â rhwystrau rhag defnyddio gwasanaethau amgen a lleihau’r straen ar y rhestr aros am ofal cartref.

**Nifer o unigolion sy’n derbyn gofal cartref (llwyd) a nifer ar y rhestr aros am ofal gartref (coch)**



# Pa wahaniaeth a wnaed?

## Stori Tomos

Mae Tomos, dyn yn ei 70au sy'n byw gyda dementia, yn cynnal iechyd corfforol dda, yn mwynhau yn yr awyr agored ac yn gwerthfawrogi ei annibyniaeth. Mwynha ei deithiau cerdded dyddiol, ond, wrth i'w ddementia waethygu fe ddechreuodd fynd ar goll.

Ar ôl cael ei gyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol gan ei wraig, argymhellodd gweithiwr cymdeithasol ofal â chymorth technoleg. O fewn dyddiau, derbyniodd Tomos ddyfais GPS 'Buddi' i wisgo o amgylch ei wddf, ac fe gafodd ei wraig arweiniad ar ddefnyddio'r ap a'r wefan.

Roedd y ddyfais yn caniatáu i'r teulu olrhain lleoliad Tomos mewn argyfyngau neu pan fyddai'n crwydro o'i lwybr arferol. Galluogodd Tomos i aros yn annibynnol tra'n lleihau risgiau a lleddfu pryderon y teulu.

Mae dyfais Buddi hefyd yn gadael i Tomos alw am help petai angen, gan ei gysylltu'n uniongyrchol â staff Galw Gofal. Maent yn ei gynorthwyo heb gynnwys y gwasanaethau brys, gan arbed adnoddau cyhoeddus sylweddol.




## Stori Mai

Mae Mai, gwraig 67 oed sy'n byw gartref gyda'i gŵr, yn byw gyda dementia.

Yn ystod cyfnod y pandemig, daeth yn amlwg bod angen cymorth ychwanegol ar y teulu er mwyn cwrdd â'i hanghenion gofal. Daethant o hyd i gynorthwyydd personol o'r enw Carol, a ddechreuodd ddarparu saith awr o gymorth yr wythnos drwy Daliadau Uniongyrchol. Dros amser, mae'r cymorth hwn wedi cynyddu i dros 30 awr yr wythnos.

Cynorthwya Carol mewn sawl ffordd, megis mynd â Mai i siopa, ar deithiau dydd, ac ymweld â'i ffrindiau. Mae Carol bellach yn teimlo fel aelod o'r teulu, ac mae'r ddwy wedi datblygu perthynas agos iawn.

Mae Taliadau Uniongyrchol wythnosol Mai yn **£488.70**, tra byddai'r gost o symud i gartref gofal dementia yn **£855.75** yr wythnos.



## Pa gynnydd a wnaed yn erbyn yr addewidion a nodwyd yn adroddiad llynedd?

| Addewidion llynedd | Cynnydd |
|---|---|
| Llunio cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu ar draws y maes gofal | Ym mis Tachwedd 2023, buom yn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd i ddod o hyd i'r ffyrdd gorau o gyfathrebu a rhannu gwybodaeth. Yn seiliedig ar eu hargymhellion, crëwyd Cynllun Cyfathrebu cynhwysfawr i'w roi ar waith yn 2024/25.<br><br>Mae ein fforymau ar gyfer pobl hŷn yn parhau i fod yn boblogaidd ac yn llwyddiannus. Er mwyn sicrhau cyfranogiad ar draws ardal eang Gwynedd, cynhelir nifer o ddigwyddiadau lleol i wrando ar leisiau trigolion hŷn. |
| Cefnogi'n trigolion drwy'r broses o drawsnewid digidol a sicrhau bod technoleg yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial. | Gwelir fod oddeutu **30%** o'n pecynnau analog wedi trosglwyddo i becynnau digidol, a'r gwaith yn cyflymu. Disgwylir y byddwn wedi trosglwyddo pob achos erbyn diwedd 2024, cyn y trawsnewid digidol fis Ionawr 2027.<br><br>Gyda thechnolegol yn datblygu'n gyflym, rydym yn treialu nifer o offer arloesol, gan gynnwys:<br>• ASK Sarah, offeryn therapydd galwedigaethol ar-lein;<br>• Gwlâu VENDLET ar gyfer troi unigolion yn ystod y nos;<br>• Matiau synhwyrydd sy'n rhybuddio teuluoedd pan fydd rhywun bregus yn gadael y tŷ;<br>• Systemau GPS i wisgo o gwmpas wddf fel Buddi;<br>• Offeryn yn y tŷ ar gyfer olrhain newidiadau symudedd er mwyn monitro llesiant unigolyn. |
| Ailedrych ar y ffordd rydym yn cefnogi'r broses darparu gofal drwy daliadau uniongyrchol | Terfynwyd y gwasanaeth cefnogi taliadau uniongyrchol gan gwmni allanol, ac mae tri aelod o staff wedi trosglwyddo i'r Cyngor.<br><br>Cynyddodd y canran o wasanaethau'r adran sydd yn cael eu darparu drwy daliadau uniongyrchol yn ystod y cyfnod, o **13%** i **15%**. Mae hyn yn is na'r hyn a obeithiwyd. |

## Addewidion 2024/25

Bydd y Cyngor yn:

- Edrych ar beth sy'n rhwystro cynyddu defnydd o daliadau uniongyrchol i weithwyr ei gynnig ac i unigolion ei ddefnyddio.
- Gwneud yn siŵr ein bod yn ymwybodol o ddatblygiadau yn y maes technoleg a roboteg ac yn gallu cynnig fel ateb i anghenion gofal.
- Datblygu ac yn darparu gwasanaeth offeryn therapi galwedigaethol, ASK Sarah, fel ei fod ar gael ar wefan y Cyngor.
- Datblygu cyfeirlyfr o weithgareddau yn y gymuned ar gyfer pobl o bob oed drwy **Dewis Cymru,** gan ddechrau gyda dwy ardal beilot, Bangor a Dolgellau.

*Mae rhestr lawn o flaenoriaethau strategol ar gyfer y flwyddyn nesaf i'w gweld yn: Gwynedd Ofalgar*

# ATAL



| | | | |
|---|---|---|---|
| NIFER O OFALWYR WEDI EU HASESU<br>**255** | **284**<br>WEDI DERBYN CEFNOGAETH GAN DEMENTIA ACTIF | NIFER O BLANT YN DERBYN CEFNOGAETH EGWYL FER DRWY AMSER NI (DERWEN)<br>**44***<br>*chwarter 4 (Ion-Maw 24) | NIFER O DDIGWYDDIADAU “HELP EFO COSTAU BYW”<br>**68***<br>*chwarter 4 (Ion-Maw 24) |
| NIFER O OFALWYR IFANC WEDI DERBYN CEFNOGAETH<br>**160** | **53***<br>WEDI DERBYN CEFNOGAETH GAN GWASANAETH RAP *(REPATRIATION AND PREVENTION)*<br>*chwarter 4 (Ion-Maw 24) | **9,420***<br>O YMWELIADAU I’R HYBIAU CEFNOGI POBL<br>*chwarter 4 (Ion-Maw 24) | **£480,225**<br>CYFANSWM O INCWM YCHWANEGOL WEDI EI HAWLIO I DRIGOLION GWYNEDD DRWY CYNGOR AR BOPETH<br>cyngor ar bopeth citizens advice |

## Beth aeth yn dda?

Gall buddsoddi mewn mesurau ataliol o fewn y gymuned greu model gofal cymdeithasol mwy cynaliadwy a lleihau'r angen am wasanaethau statudol. Ariennir nifer o brosiectau ataliol drwy'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol ac mae'r gwaith yn hanfodol ar gyfer diogelu iechyd a lles trigolion.

### Dementia Actif

Darpara Dementia Actif Gwynedd raglen sy'n cynnig cymorth i unigolion sydd yn byw gyda Dementia a'u gofalwyr. Parha'r gwasanaeth fynd o nerth i nerth, gyda bron i **300** wedi derbyn cefnogaeth yn ystod 2023/24.

Drwy gymysgedd o weithgareddau ymarfer corff ysgafn a chyfle i feithrin cysylltiadau newydd mae'r gwasanaeth yn cynnig cefnogaeth hanfodol i atal dirywiad. Gyda chyfraddau dementia yn codi, mae cefnogaeth barhaus yn hanfodol i atal dirywiad.

> ***"Fyddwn i ddim yn gweld nac yn siarad ag unrhyw un drwy'r dydd pe na bawn i'n mynychu'r sesiynau"***

Mynychwr Dementia Actif

### Hybiau Cefnogi Pobl

Dros y flwyddyn ddiwethaf, cefnogwyd nifer o hybiau cymunedol ar draws y sir, i ddarparu cymorth lleol. Mae'r hybiau, mewn cydweithrediad â phartneriaid yn yr ardaloedd, yn addasu i ddiwallu anghenion cymunedol penodol. Er enghraifft:

- Cynhelir "swper chwarel" rheolaidd er mwyn dod â phobl o bob oed ynghyd i daclo unigedd a thlodi gan **Hwb Partneriaeth Ogwen, ym Methesda.**
- Cyniga Clwb Seiont weithgareddau dydd i bobl hŷn yn **Hwb Porthi Dre, yng Nghaernarfon**, gyda chefnogaeth **Hwb Yr Orsaf, ym Mhenygroes** a'r tîm adnoddau cymunedol lleol. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys trefniadau cludo a thrafnidiaeth.
- Darpara **Hwb Felin Fach**, **ym Mhwllheli** a **Maes Ni - Maesgeirchen, ym Mangor**, sesiynau cwnsela i'r rhai sydd yn ei chael yn anodd ymdopi oherwydd dibyniaeth a phroblemau iechyd meddwl.

> ***"Mae ganddo bellach rywle i fynd yn ddyddiol, ac mae'n cael brecwast yma 3 diwrnod yr wythnos ac rydym yn gallu ei gefnogi gyda thasgau dyddiol, rhoi cymorth iechyd meddwl iddo neu gysylltu â'i gyfreithiwr.***
>
> ***Rydym hefyd wedi llwyddo i gael ei apwyntiadau yn yr adeilad, felly, er enghraifft os oes angen i rywun o'r Awdurdod Tai gwrdd ag ef, fe fyddan nhw'n cyfarfod ag ef yma."***

Merch i un o fynychwr Clwb Seiont



Hwb Antur Aelhaearn


Hwb Ogwen, Bethesda

## Gwasanaeth RAP (Repatriation and Prevention)

Drwy fuddsoddiad ataliol gellir hefyd arbed arian. Prif reswm dros orwariant yn yr Adran Plant eleni oedd lleoliadau all-sirol costus ar gyfer plant mewn gofal ag anghenion cymhleth.

Cyniga Gwasanaeth RAP Gwynedd ymyrraeth ddwys er mwyn cefnogi rhieni a gofalwyr maeth i reoli ymddygiad heriol a sicrhau lleoliadau sefydlog, gan osgoi'r angen i symud plentyn bregus ymhell o'i gynefin, ffrindiau a theulu. Gweler stori Beca ar y dudalen nesaf sy'n amlygu pwysigrwydd y gwasanaeth amhrisadwy hwn.

# Sut gellir wella?

## Darparu rhagor o gefnogaeth i ofalwyr di-dal

Gofalwyr di-dâl sy'n darparu'r mwyafrif helaeth o ofal a chefnogaeth i unigolion bregus, anabl a sâl yn ein cymdeithas, ac felly'n arbed costau sylweddol i wasanaethau statudol bob blwyddyn. Fodd bynnag, mae gofalu am rywun annwyl yn dod â straen emosiynol aruthrol, ac mae'r argyfwng costau byw a phrinder gofalwyr cyflogedig wedi gwaethygu eu sefyllfa.

Rhaid holi a yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn gwneud digon i gefnogi gofalwyr di-dâl, ac mae'r ateb yn glir: nac ydi. Gan gydnabod hyn, cymerir camau i wella'r sefyllfa.

Mae angen mwy o waith i ddeall yr anghenion, adnabod gofalwyr cudd, a darparu cymorth amserol ac ystyrlon er mwyn osgoi argyfyngau a galluogi iddynt barhau i ofalu am gyfnod hwy. Ein nod yw rhannu gwybodaeth yn gyson ac yn hygyrch, darparu seibiannau i ofalwyr ledled y sir, a chynyddu'r ddealltwriaeth ar sut i wneud y mwyaf o daliadau uniongyrchol i dalu am seibiant.

Heb os fe welir enghreifftiau o waith cymorth da ac mae angen adeiladu ar hynny. Gwelir lwyddiant gwaith y Swyddog Gofalwyr Ifanc sydd, ar y cyd â Gweithredu dros Blant, yn codi proffil gofalwyr ifanc ac yn cynnal rhwydwaith sy'n gwrando'n barhaus ar eu lleisiau ac yn cyd-gynhyrchu atebion ar gyfer gwasanaethau megis seibiant, gyda hwy ac ar eu cyfer.

Yn ogystal, mae prosiectau fel Amser Ni, sy'n ran o wasanaeth Derwen, yn sicrhau seibiannau byr i rieni plant ag anghenion cymhleth, a hynny drwy amryw o weithgareddau a chyfnodau mewn unedau preswyl, fel Hafan y Sêr. Oherwydd y cynnydd yn y galw, fodd bynnag, nid yw'r Gwasanaeth yn gallu cynnig y ddarpariaeth llawn i bawb sydd ei angen.

> *"Mae cael cysylltiad â chi yn gysur oherwydd rwy'n gwybod bod help ar gael iddi bob amser"*
>
> Rhiant (Cefnogaeth Amser Ni a Derwen)

Mae'n rhaid rhoi mwy o sylw i'r heriau y mae gofalwyr di-dal yn eu hwynebu a'r effaith ar eu hiechyd a llesiant. Bwriedir gweithio at gynyddu'r gefnogaeth i ofalwyr gydag adnoddau, gofal seibiant, cymorth ariannol, a chydnabyddiaeth, sydd yn hanfodol ar gyfer cynnal eu hymdrechion a gwella effeithiolrwydd y system gofal cymdeithasol.




Rhai o weithgareddau Dementia Actif Gwynedd

# Pa wahaniaeth a wnaed?

## Stori Beca

Roedd Beca, 9 oed, yn cael trafferth ymdopi mewn gofal maeth, ac oherwydd ei hymddygiad fe dorrodd ei lleoliad cyntaf i lawr yn llwyr. Daethpwyd o hyd i gartref maeth newydd i Beca, ac ymyrrodd Gwasanaeth RAP (Repatriation and Prevention) Gwynedd i atal chwalfa arall.

Deilliodd ei hymddygiad heriol o'i hawydd i ddychwelyd adref. Dechreuodd fynychu sesiynau therapi, gan rhoi man diogel lle gallai feithrin ymddiriedaeth, a siarad am ei meddyliau a'i theimladau.



Derbyniodd Beca y gefnogaeth yn raddol. Dros amser daeth i ddeall ei hemosiynau, ei perthnas gyda ei theulu, a'r dryswch ynghylch ei symud o gartref.

Yn ystod y sesiynau cafodd gyfle i arlunio a chreu lluniau ac roedd hyn yn help i Beca i ddeall a mynegi ei hun yn well, gan ei galluogi i weld graddau amrywiol o hapusrwydd er gwaethaf heriau.

Mynychodd Beca **41 o sesiynau dros 18 mis**, gan fagu hyder a dysgu sut i reoli ei hemosiynau. Sefydlogodd ei lleoliad, ac fe ddychwelodd adref i gartref ei rhieni yn ddiweddarach. Gyda chefnogaeth barhaus mae Beca a'i theulu yn ffynnu.

## Stori Ella

Swyddog Cefnogi Rhieni sy'n Ofalwyr yw Ella, sydd isod yn trafod ei gwaith yn sefydlu a chynnal cyfarfod grŵp cymorth gofalwyr di-dâl yn Hwb Porthi Dre yng Nghaernarfon:

> ***“Roedd y gofalwyr yn teimlo'n gartrefol ac wedi ymlacio ar unwaith yno. Gwnaed i ni deimlo mor groesawgar. Roeddwn yn gallu defnyddio eu cegin i wneud te a choffi a daeth un o'r staff â hambwrdd o gacennau cartref i ni. Roedd gan y gofalwyr yr opsiwn i gael cinio, sef cawl cartref, yno hefyd. Roedd yn braf gweld y gofalwyr yn cael gofal fel hyn gan fod gan bob un ohonynt fywydau mor brysur a heriol.***
>
> ***Roedd yn hyfryd gweld y gofalwyr yn sgwrsio â'i gilydd a rhannu straeon a gwybodaeth am weithgareddau lleol. Roedd y gofalwyr mewn sefyllfaoedd tebyg iawn gyda'u rolau gofalu, ac roeddent yn gallu deall ac uniaethu â'i gilydd.***
>
> ***Rhagorodd y digwyddiad hwn ddisgwyliadau. Mae'r gofalwyr a fynychodd yn wreiddiol eisoes wedi ffurfio cyfeillgarwch a byddant yn parhau i gefnogi ei gilydd y tu allan i'r grŵp. Mae cymorth o'r fath yn hanfodol i ofalwyr di-dâl sy'n aml yn gallu teimlo'n ynysig.***
>
> ***[Neges i mi yw] peidio bod ofn dechrau'n fach ac i roi cynnig ar bethau newydd. Dwi'n teimlo y bydd y grŵp hwn yn mynd o nerth i nerth. Byddem wrth ein bodd yn gweld mwy o ofalwyr yn elwa o'r gefnogaeth hon mewn lleoliadau ar draws Gwynedd.”***

## Pa gynnydd a wnaed yn erbyn yr addewidion a nodwyd yn adroddiad llynedd?

| Addewidion llynedd | Cynnydd |
|---|---|
| Mabwysiadu Cynllun Lliniaru ac Atal Tlodi, a gwerthuso'r rhwydwaith presennol o Hybiau Helpu Pobl ac ehangu i ardaloedd pellach. | Er mwyn ymateb i heriau tlodi dybryd darpara'r Cyngor raglen o gefnogaeth oedd yn cynnwys cymorth ariannol i fanciau bwyd, gweinyddu talebau tanwydd argyfwng i drigolion, gweithredu'r cynllun urddas mislif, a chyfres o ddigwyddiadau a hyfforddiant ar ddeall natur tlodi. Penodwyd dau Hyrwyddwr Lles, ac mae cyfres o sesiynau galw heibio yn y Siopau Gwynedd wedi eu cynllunio am y flwyddyn.<br><br>Cynhaliwyd gwerthusiad o'r hybiau. Prif her ydi sicrhau fod y ddarpariaeth ar gael ym mhob ardal a llwyddwyd i sefydlu Cytundeb Cydweithio ar gyfer ardal Dolgellau a Thywyn. Mae angen gwaith pellach ym Mhorthmadog ac yn Nyffryn Peris, sy'n parhau heb hwb. |
| Arwain ar Gynllun Gofalwyr i sicrhau ein bod yn adnabod, cydnabod a chefnogi'r gwaith amhrisiadwy mae gofalwyr di-dâl ar draws Gwynedd yn ei wneud. | Adnabuwyd y partneriaid sy'n darparu cefnogaeth i ofalwyr di-dâl yng Ngwynedd ac adolygwyd llyfryn **'Edrych ar ôl Rhywun'** fel un ffordd o sicrhau fod gwybodaeth ar gael mewn un lle.<br><br>Yn anffodus, mae'r ddarpariaeth yn ddibynnol iawn ar arian grant. Bydd llunio Cynllun Gofalwyr sirol sy'n mynd i'r afael â'r angen, ond, sydd hefyd yn fforddiadwy, yn her aruthrol. Gan ddilyn blaenoriaethau **Strategaeth Gofalwyr di-dâl Llywodraeth Cymru,** bydd y Cyngor yn pwyso a mesur y risgiau ariannol a'r risgiau i les unigolion yn ofalus wrth gynllunio i'r dyfodol. |
| Gwneud defnydd llawn o'n gwasanaethau gofal dydd ac ysbaid, ac edrych ar opsiynau posib er mwyn ailfodelu'r ddarpariaeth yn ardaloedd Ffestiniog ac Eifionydd. | Ar ôl y pandemig gwelwyd y cyfle i ail feddwl am y ffordd y darperir ofal dydd i drigolion, gan symud i ffwrdd o wasanaethau sydd yn seiliedig ar anabledd, oedran, ac adeilad neu ganolfan benodol, ac edrych yn hytrach tuag at ymestyn cyfleoedd i unigolion adennill cysylltiadau cymunedol.<br><br>Arweinia datblygu hybiau cymunedol ar hyd a lled y sir wedi at gyfleoedd i fod yn cydweithio ar lefel lleol iawn. Mae'r ymdrech i gefnogi y weledigaeth ar gyfer gofal dydd wedi cychwyn mewn ambell le'n barod, er enghraifft, Porthi Dre yng Nghaernarfon. Y bwried yw datblygu model newydd er mwyn darparu gwasanaeth cyson ar draws y sir gan gynnwys trigolion sy'n byw mewn ardaloedd wledig.<br><br>Ym mis Tachwedd 2023 cyflwynwyd adroddiad i'r **Pwyllgor Craffu Gofal**, a cytunwyd i gynnal adolygiad llawn o'r ddarpariaeth gofal dydd a chyflwyno papur opsiynau pellach. Bydd hyn yn cael ei roi ar waith yn fuan yn 2024/25. |

## Addewidion 2024/25

Bydd y Cyngor yn:

- Cynnal adolygiad llawn o wasanaethau gofal dydd ar draws y sir.
- Gwneud mwy o waith i sicrhau fod systemau taliadau uniongyrchol yn effeithiol, hygyrch ac yn hawdd i'w ddefnyddio i bawb.
- Datblygu'r cymorth sydd ar gael i ofalwyr di-dâl ymhellach i sicrhau fod gan bob ofalydd y cyfleoedd priodol i weithio, hamddena a hyfforddi.
- Edrych ar sefydlu a datblygu hybiau yn yr ardaloedd hynny sy'n parhau heb adnodd.

*Mae rhestr lawn o flaenoriaethau strategol ar gyfer y flwyddyn nesaf i'w gweld yn: Gwynedd Ofalgar*

# PARTNERIAETH



*Gyda'r argyfwng costau byw yn parhau i frathu, mae cyd-weithio i liniaru effaith tlodi ar drigolion Gwynedd yn hanfodol. Mae'r Raglen Cefnogi Pobl yn flaenoriaeth i'r Cabinet, gyda phob Adran yn cyfrannu at y gwaith - o'r Adran Cyllid i'r Adran Priffyrdd.*



*Fodd bynnag, nid yw'r atebion i gyd gan y Cyngor ac fe hoffwn bwysleisio mor bwysig yw cydweithio gyda mudiadau trydydd sector a gwirfoddol. Mae'r cyfnod diwethaf yn sicr wedi dangos y gallwn wneud cymaint mwy gyda'n gilydd - o gynnal digwyddiadau costau byw i agor mannau 'croeso cynnes' i unrhyw un ddod i mewn am gysgod, sgwrs neu baned.*

**Cyng. Nia Jeffreys, Dirprwy Arweinydd Cyngor Gwynedd yn siarad yng nghyfarfod blynyddol Cyngor Ar Bopeth, Tachwedd 2023**

## Beth aeth yn dda?

Er mwyn sicrhau gwasanaethau cymdeithasol effeithiol gofynnir am gydweithio agos rhwng gwasanaethau cyhoeddus, y trydydd sector, grwpiau cymunedol, busnesau a darparwyr gofal. Drwy dorri seilos rhwng y sectorau, gellir lleihau gwasanaethau darniog, gan arwain at ofal mwy cydlynol ac effeithlon, tra hefyd yn arbed adnoddau.

### Y Trydydd Setor

Bu'r bartneriaeth gyda Mantell Gwynedd a mudiadau sy'n rhan o'r Grŵp Cyswllt Trydydd Sector yn hollbwysig ar gyfer rhannu adnoddau ac arferion gorau a dros y flwyddyn ddiwethaf. Fe wnaeth y berthynas gyda grwpiau lleol trwy waith yr hybiau cymunedol hefyd ddyfnhau.

Fe amlygodd adborth gan bartneriaid fod anghysondeb yn nhrefniadau ariannu a grantiau'r Cyngor yn creu rhwystredigaeth. Yn ystod y flwyddyn nesaf bydd angen mynd i'r afael â hyn ar y cyd â Mantell Gwynedd, gan edrych ar y dull ariannu a chomisiynu ar draws adrannau'r Cyngor. Does dim dewis ond gwneud hyn o ystyried yr hinsawdd ariannol bresennol, ac mi fydd hefyd fodd o wneud y gorau o drefniadau caffael er mwyn cefnogi'r sector yn fwy effeithiol.

### Mentrau Cymdeithasol ac Adroddiad Archwilio Cymru

Noda'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) fod yn rhaid i awdurdod lleol hyrwyddo datblygiad mentrau cymdeithasol i ddarparu gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol.

Ar ddiwedd 2022, rhyddhaodd Archwilio Cymru adroddiad cenedlaethol, "**Mentrau Cymdeithasol - Cyfle Wedi'i Goll**i," sy'n amlygu y gallai Cynghorau wneud mwy i wella effaith mentrau cymdeithasol, cyflawni gwell gwerth am arian, a gwella gwasanaethau cymunedol. Mae'r adroddiad, fodd bynnag, yn amlygu bod Gwynedd, ynghyd â thair sir arall yng Nghymru, yn cael eu gweld fel 'Lleoedd Menter Gymdeithasol' - ardaloedd lle mae gweithgaredd busnes cymdeithasol yn ffynnu, ac mae ymrwymiad cryf i'r sector.

Ceir sawl enghraifft o fentrau a hyrwyddir gan y Cyngor yn ystod 2023/24. O dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (2023), mabwysiadodd y Cyngor hefyd y "Mesurau Gwerth Cymdeithasol" yn ei Fframwaith Caffael Corfforaethol yn ystod y flwyddyn. Blaenoriaetha Cyngor Gwynedd i gadw'r budd yn lleol ers tro, gan dreialu fframwaith newydd hyd yn oed cyn cyflwyno'r ddeddf.

Fel rhan o'r rhaglen genedlaethol barhaus Ail-gydbwyso Gofal a Chymorth, mae rhagor o waith i'w wneud i dynnu gwerth cymdeithasol o gytundebau caffael er budd pobl hŷn a grwpiau eraill a gefnogir. Bydd gwaith yn parhau i fynd i'r afael ag argymhellion adroddiad Archwilio Cymru i sicrhau bod mentrau cymdeithasol yn cael eu hyrwyddo.

### Cydweithio ar brosiectau tai

Gweithiwyd gyda darparwyr Tai Cymdeithasol, Adran Tai ac Eiddo'r Cyngor, a'r Bwrdd Iechyd ar ddatblygiadau arloesol yn ystod y flwyddyn.



Argraff arlunydd o ddatblygiad Penyberth, Penrhos (Llun ClwydAlyn)

Er mwyn mynd i'r afael dybryd am ddarpariaeth gofal nyrsio ym Mhen Llŷn parhaodd y gwaith o baratoi achos ar gyfer adeiladu cartref newydd ar safle Penyberth, ym Mhenrhos, i gymryd lle'r un a gaewyd yn 2020. Cytunodd ClwydAlyn, sydd yn datblygu'r safle ehangach, i drosglwyddo dwy erw o dir ar gyfer y diben hwn.


Yn ogystal, ar ôl peth oedi, ail-afaelwyd yng nghynllun Canolfan Lleu, yr hwb iechyd a lles sy'n cael ei ddatblygu ar y cyd â Grŵp Cynefin a phartneriaid lleol ym Mhenygroes. Drwy ei wireddu, byddai'r safle yn cynnig cartref preswyl a datblygiad o dai gofal ychwanegol pwrpasol i drigolion yr ardal.

Tra'n cydnabod fod y ddau gynllun yn uchelgeisiol, maent yn hanfodol. Bydd angen gwaith pellach i sicrhau'r adnoddau ariannol priodol i wireddu'r cynlluniau, ond mae'n galonogol fod y partneriaid yn cyd-weithio gyda'r weledigaeth o ddarparu gofal a chartrefi sy'n addas ar gyfer anghenion trigolion Gwynedd. Bydd angen edrych ar ddatblygiadau pellach o'r math yma, yn enwedig yn Ne'r sir, lle mae canfod safle addas yn her.

O fewn y Cyngor, mae cydweithio rhwng gwasanaethau cymdeithasol a'r Adran Tai ac Eiddo wedi parhau. Penodwyd Swyddog Prosiect fydd, yn ystod 2024/25, yn llunio asesiad o sefyllfa tai â gofal presennol yng Ngwynedd, gan edrych ar opsiynau llety posib er mwyn cyfarch yr angen ar gyfer pobl hyn, pobl ag anabledd a phlant dros y 20 mlynedd nesaf.

## Diogelwch Cymunedol

Cydweithir â phartneriaid drwy nifer o fyrddau rhanbarthol ac isranbarthol. Yn ddiweddar, drwy'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, fe weithiodd y Cyngor gyda Heddlu Gogledd Cymru a Chynghorau Cymuned i geisio mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol cynyddol mewn rhai ardaloedd penodol.



Gydag arian grant Cronfa Ffyniant Gyffredin (SPF), bydd teledu cylch cyfyng (CCTV) ychwanegol yn cael ei osod ym Mhwllheli, Bangor, a Stryd Fawr Cricieth yn ystod 2024/25.

Mae Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn cynnull Grŵp Mannau Cyhoeddus: Parodrwydd i Amddiffyn a Diogelu yn unol â'r canllawiau cenedlaethol. Dyma grŵp sy'n dod a nifer o sefydliadau at ei gilydd, gan gynnwys Coleg Llandrillo Menai, Heddlu Gwrthderfysgaeth, Parc Cenedlaethol Eryri a Phrifysgol Bangor er mwyn gwella a chefnogi'r parodrwydd i amddiffyn a diogelu mewn lleoliadau cyhoeddus yng Ngwynedd.



Pwllheli, sydd wedi derbyn arian i gael CCTV yn y dref

# Sut gellir wella?

## Gweithio ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Os yr ydym am gryfhau perthynas a meithrin ymddiriedaeth ar gyfer gweithio'n integredig, mae angen mwy o gapasiti arnom. Mae'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yn wynebu pwysau sylweddol, sy'n aml yn dargyfeirio ffocws at faterion brys ac argyfyngus.

Er gwaethaf ambell ymdrech lwyddiannus fel y Tîm Adnoddau Cymunedol ym Mangor, lle mae cydleoli mewn gofod gyda nyrsys cymunedol a therapyddion iechyd wedi symleiddio cyfathrebu, a phenodi Arweinydd Tîm Therapi Galwedigaethol ar y cyd, mae'r cynnydd wedi bod yn araf hyd yn hyn.

Erys rhwystrau ymarferol. Mae cydleoli timau gwaith cymdeithasol ac iechyd yn ffafriol ond yn heriol oherwydd cyfyngiadau gofod a heriau daearyddol, ac mae systemau data gwahanol ar draws Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd, a thimau Iechyd Meddwl yn llesteirio ymdrechion i weithio'n integredig.

Ym mis Medi 2023 ailgynullwyd y Bwrdd Datblygu Timau Adnoddau Cymunedol, sy'n cael ei gyd-gadeirio gan Gyfarwyddwr Ardal Gorllewin Betsi Cadwaladr a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd, er mwyn gosod cyfeiriad strategol. Bwriedir benodi rheolwr prosiect yn gynnar ym mis Mai 2024, fel bod modd cyflymu a blaenoriaethu'r gwaith.

## System WCCIS

Daw system ddata presennol y Cyngor, WCCIS, i ben yn gynnar yn 2025, ac mi fydd angen darn o waith sylweddol i gaffael system newydd, trosglwyddo data ac yna hyfforddi staff. Uchafwyd y mater fel risg corfforaethol sylweddol oherwydd yr amserlen dynn.

I fynd i'r afael â'r risg, bydd y Cyngor yn cyd-weithio gydag awdurdodau lleol eraill, y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gaffael system newydd.

# Pa wahaniaeth a wnaed?

## Stori Glesni

**Yn hytrach nag ymateb i drosedd a digwyddiadau dim ond ar ôl iddyn nhw ddigwydd, mae Partneriaethau Datrys Problemau Heddlu Gogledd Cymru yn annog asiantaethau i gydweithio er mwyn mynd at wraidd achosion. Y gobaith yw datblygu datrysiadau ar y cyd a lleihau'r nifer o broblemau diogelwch cyhoeddus.**

Roedd Glesni, gwraig 90 oed â dementia, yn ffonio'r heddlu yn rheolaidd. O fewn pum mis fe ffoniodd rhif argyfwng yr Heddlu **467 gwaith.** Roedd y galwadau yn cyfateb i **2,826 munud** neu ychydig dros **47 awr** o amser staff yn siarad efo Glesni ar y ffôn. Nid oedd y galwadau hyn angen ymateb gan yr Heddlu, ond roeddent yn mynnu sylw'r llinellau brys ac amser y derbynwyr galwadau. Roedd ystyriaeth gan y tîm aml-ddisgyblaethol i Glesni fynd i gartref preswyl arbenigol, ond nid oedd hi eisiau hynny.

Gan gydweithio, aethpwyd ati i geisio deall anghenion Glesni yn well. Yn dilyn asesiad o'i chartref gan weithiwr cymdeithasol, sylweddolwyd fod y ffôn tŷ wrth ei gwely ac wrth ei weld peth cyntaf wrth ddeffro yn y bore roedd yn mynd ati yn syth i ffonio 999.

Symudwyd y ffôn a rhoddwyd mesurau diogelwch eraill yn eu lle, gan arwain at leihad yn y nifer o alwadau i'r gwasanaethau brys. Fe lwyddwyd i gadw Glesni adref yn ei chartref, yn unol â'i dymuniad, am tua 6 mis ychwanegol.

*Cafwyd cydnabyddiaeth yng ngwobrau Wobrau Partneriaethau Datrys Problemau am y gwaith:* ***Stori Lawn***

## Pa gynnydd a wnaed yn erbyn yr addewidion a nodwyd yn adroddiad llynedd?

| Addewidion llynedd | Cynnydd |
|---|---|
| Gwreiddio'r model gofal cartref newydd gan sicrhau bod darparwyr mewnol ac allanol yn cydweithio'n effeithiol â'r cymunedau'n ehangach. | Tra bod y cynllun hwn yn uchelgeisiol ac arloesol, mae gwaith pellach ei angen er mwyn mireinio'r model. Er y gwelwyd gwelliant, parha rhestrau aros uchel am ofal cartref, gyda darparwyr gofal allanol a mewnol yn methu cwrdd â'r galw, gan orfodi blaenoriaethu ar sail risg.<br><br>Mae'r sefyllfa'n newidiol ac yn anghyson ar draws y sir. Er enghraifft, gweler ar hyn o bryd, ddigon o ddarpariaeth yn Nolgellau, ond mae Tywyn yn wynebu prinder dybryd. Cynhelir trafodaethau parhaus gyda darparwyr allanol er mwyn mynd i'r afael â'r gwahaniaethau hyn.<br><br>Rydym wedi buddsoddi yn y cynllun Catalydd Cymunedol i gefnogi unigolion neu grwpiau i greu micro-fentrau, yn enwedig mewn ardaloedd nas gwasanaethir yn ddigonol. Yn 2023/24, sefydlwyd **4** micro-fenter gofal, gydag **11** arall yn cael cymorth cychwynnol. Nod yr ymdrechion hyn yw hybu gofal cartref lleol a chymunedol, lleihau'r pwysau ar ddarparwyr, a chynyddu'r nifer o unigolion sy'n gallu manteisio ar daliadau uniongyrchol. |
| Datblygu a gweithredu ar achos busnes safle Penyberth ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd | Cymeradwywyd y cais cynllunio i ail-ddatblygu rhan o safle Penybeth yn Hydref 2023. Yn ystod 2024/25 bydd ClwydAlyn yn cychwyn ar y gwaith o adeiladu tai newydd i gymryd lle'r stoc bresennol, sydd bellach wedi dyddio.<br><br>Yn y cyfamser, mae Cyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd yn datblygu achos busnes ar gyfer cartref preswyl a nyrsio newydd ar y safle, yn lle'r un a gaewyd yn 2020. Mae'r achos busnes bellach yn cael ei asesu gan Lywodraeth Cymru. |
| Anelu at ennill achrediad 'cymuned oed gyfeillgar' gan Sefydliad Iechyd y Byd er mwyn sicrhau bod trigolion o bob oed yn medru cael bywyd da yn eu cymuned leol. | Cyflwynwyd cais ar ran y sir gyfan i ddod yn aelod o Rwydwaith Cymunedau Oed-Gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd ym mis Mawrth 2024. Gyda phobl yn byw bywydau hirach ac iachach, mae'n hanfodol bod ein cymunedau yn rhai dymunol, diogel a hygyrch i bobl wrth iddynt heneiddio. Mae'r Cyngor eisoes wedi dangos ymroddiad i feithrin arferion sy'n ystyriol o oedran, gan wrando ar leisiau pobl hŷn a phenodi pencampwr oed-gyfeillgar.<br><br>Wrth gwrs, nid mater i'r awdurdod lleol yn unig yw hyn ac fe gyfrannodd yr holl bartneriaid at y cais drwy weithdai a chyfarfodydd. Bydd y cydweithio cadarnhaol yn parhau i'r dyfodol. |

## Addewidion 2024/25

Bydd y Cyngor yn:

- Gweithio gydag awdurdodau lleol eraill, y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW), a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gaffael system newydd ar gyfer casglu a chadw data Gwasanaethau Cymdeithasol (WCCIS).
- Penodi, ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd, rheolwr prosiect i ddatblygu'r Timau Adnoddau Cymunedol.
- Parhau i weithio â partneriaid yn y sector dai er mwyn ehangu'r ddarpariaeth o dai gofal ychwanegol.
- Cydweithio â Mantell Gwynedd er mwyn cysoni trefniadau ariannu ar gyfer y trydydd sector.
- Edrych i fuddsoddi yn y cynllun Catalydd Cymunedol i gefnogi creu rhagor o ficro-fentrau gofal.

*Mae rhestr lawn o flaenoriaethau strategol ar gyfer y flwyddyn nesaf i'w gweld yn: Gwynedd Ofalgar*

# LLES



**281*** O BLANT MEWN GOFAL

*14 yn Geiswyr Lloches ar eu Pen eu Hunain (UASC)



**79%**

O GYFEIRIADAU PLANT YR YMATEBWYD IDDYNT O FEWN Y CYFNOD STATUDOL

**94%**

O GYFEIRIADAU DIOGELU OEDOLION YR YMATEBWYD IDDYNT O FEWN 7 DIWRNOD

**753**

O OEDOLION WEDI DERBYN CYNGOR A CHYMORTH GAN Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL STATUDOL



**248%***

O GYNNYDD MEWN GWAITH YN YMWNEUD Â ACHOSION RHAN 5 YN 2023/24 O GYMHARU Â 2022/23

*Nifer o gyfarfodydd yn hytrach na nifer achosion

**350** YN AROS AM ASESIAD DOLS



**1,100**

WEDI MYNYCHU HYFFORDDIANT TÎM EMRALLT



NIFER SYDD WEDI GWELLA EU HIECHYD A'U LLES EMOSIYNOL AR ÔL CAEL CYMORTH GAN Y GWASANAETH AWTISTIAETH

**14***

*chwarter 4 (Ion-Maw 24)



# Beth aeth yn dda?

Gellir hybu iechyd a lles emosiynol da drwy greu amgylcheddau cefnogol, darparu adnoddau iechyd meddwl, ac annog ffyrdd iach o fyw gan gymdeithasu i osgoi unigrwydd. Drwy wella ansawdd bywyd, gellir atal problemau iechyd meddwl, a helpu unigolion i ymdopi â heriau.

## Gwasanaeth Awtistiaeth

Caiff unigolion awtistig drafferth wrth geisio cymorth arbenigol sydd ei angen arnynt. Yn genedlaethol, mae galw cynyddol am ddiagnosis wedi arwain at restrau aros o hyd at ddwy flynedd, gan adael llawer mewn perygl o ddisgyn drwy fylchau mewn gwasanaethau. Gall hyn arwain at argyfyngau a sefyllfaoedd bregus i deuluoedd.

Yng Ngwynedd lansiwyd Gwasanaeth Awtistiaeth newydd yn ystod 2023/24. Darpara y tîm wybodaeth, cyngor a chymorth (IAA) i helpu unigolion awtistig a'u teuluoedd i wneud dewisiadau gwybodus a chael mynediad at wasanaethau priodol. Cydweithir â Thîm Derwen i gefnogi pobl ifanc sydd â diagnosis o awtistiaeth, gan gynnig cyrsiau i ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol a gweithdai i helpu unigolion wella eu dealltwriaeth o'u awtistiaeth.

Cynyddodd y cyfeiriadau ar gyfer unigolion 14-25 oed yn benodol, a rhoddwyd cefnogaeth yn ei le ar gyfer y grŵp oedran yma drwy'r rhaglen "Archwilio Fy Awtistiaeth". Yn ogystal, cynhaliwyd grwpiau cefnogi rhieni a gofalwyr (a elwir yn "Siop Siarad") ar draws y sir, gan gynnig llwyfan i drafod pryderon a chysylltu ag eraill sy'n wynebu heriau cyffelyb. Er bod llai na blwyddyn ers sefydlu'r gwasanaeth, bu adborth yn hynod gadarnhaol, gyda rhai teuluoedd yn datgan i'w bywydau newid.

> ***"Dw i wedi newid cymaint fel person ers dechrau cael cymorth gennych. Byddwn yn mynd mor bell i ddweud nad ydw i'n nabod y person oeddwn pan ddechreuais.***
>
> ***Dw i wedi dysgu cyfathrebu â phawb o'm cwmpas a bellach yn deall fy hun a fy rhwystrau yn well. Dw i'n deall pam fy mod yn teimlo rhai pethau, a beth i wneud pan fyddaf yn teimlo fel hyn."***

**Person ifanc (Cefnogaeth Tîm Awtistiaeth Gwynedd)**

## Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn

Yn yr adroddiad llynedd (Mawrth 2023), nodwyd "nad oes unrhyw berson ifanc o Wynedd wedi bod yn y carchar na'i geryddu ers 2020". Yn anffodus mae hyn wedi newid, ac, ar 31 Mawrth 2024 roedd **1** unigolyn ifanc mewn llety diogel.

Yn ystod 2023/24 cynhaliwyd arolygiad o wasanaeth Timau Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. Roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn ar y cyfan, gydag awgrymiadau ar ddulliau i gryfhau ei lywodraethiant.

Cefnoga'r gwasanaeth blant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu neu sydd wedi troseddu, ac fe



Cyng Elin Walker gyda'r Tîm Emrallt a derbynniodd gydnabyddiaeth mewn cynhadledd yng Nghaerdydd


Lucy a Mared, Tîm Awtistiaeth Gwynedd (Llun BBC)

gyfeirir at sawl arfer da, gan gynnwys partneriaethau cryf, cefnogaeth staff, a chyfranogiad plant a rhieni wrth gynllunio a darparu cymorth.

Amlygodd yr arolygwyr fod cynnig mynediad i ystod o ymyriadau yn cryfhau'r gwasanaeth, ac fe gyfeirir yn benodol at waith arloesol Tîm Emrallt, sy'n mynd i wraidd ymddygiad rhywiol problemus a niweidiol, a rhaglen 'Be di'r Sgôr?', sy'n rhoi cefnogaeth i atal camddefnyddio sylweddau.

Graddiwyd y Gwasanaeth yn ei gyfanrwydd yn 'Dda,' gyda'r polisi a'r ddarpariaeth adsefydlu wedi ei raddio fel 'Angen Gwella'. Bydd Cynllun Gwella yn cael ei roi ar waith ar y cyd gydag Ynys Môn yn 2024/25.


# Sut gellir wella?

## Adolygu achosion Gwasanaethau Plant

Arhosodd nifer y cyfeiriadau i wasanaethau plant yn weddol gyson ar **7,230** yn 2023/24 (tua **140 yr wythnos drwy'r flwyddyn**), o gymharu â **7,175** y llynedd. Er bod hyn yn awgrymu fod y niferoedd yn sefydlogi ar ôl cyfnod COVID-19, nid yw'n dychwelyd i lefelau cyn-bandemig o **5,000-6,000.**

Mae'r gwasanaeth wedi'i lethu ag achosion mwy dwys a chymhleth. Yn ystod 2024/24 bydd rhaid cynnal gwaith pellach er mwyn dadansoddi'r tueddiadau sy'n effeithio ar wasanaethau plant er mwyn gwneud yn siŵr bod y Cyngor yn ymateb i'r anghenion yn ddigon buan.

**Twf yn y nifer o gyfeiriadau i wasanaethau plant dros y 6 mlynedd diwethaf**




## Gwasanaeth Iechyd Meddwl

Er bod cynnydd wedi'i wneud mewn rhai meysydd, mae bylchau o hyd yn y gwasanaethau a ddarperir er mwyn rhoi cymorth gwell i unigolion ag anghenion iechyd meddwl. Eleni derbyniwyd dros **5,500** o gyfeiriadau iechyd meddwl, sydd yn gyfystyr a **thros 100 yr wythnos** drwy'r flwyddyn.

Ystyriwyd bod yr integreiddio â'r Bwrdd Iechyd yn annigonol, gan ysgogi newid yn y trefniant i gefnogi anghenion iechyd meddwl cymdeithasol yn well. Bwriedir lansio y Gwasanaeth newydd yn mis Mai 2024, ac mi fydd yn canolbwyntio ar ymateb yn amserol i helpu unigolion ymdopi â'u heriau iechyd meddwl yn fwy effeithiol. Bydd y cyd-weithio â'r Bwrdd Iechyd yn parhau, ond bydden nhw'n edrych yn benodol ar unigolion efo anghenion iechyd meddwl clinigol.

Parha pryderon am y gwasanaeth Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS), gyda rhai unigolion yn aros hyd at dair blynedd am asesiad. Ym mis Mawrth 2023, roedd **350** o unigolion ar y rhestr aros. Defnyddiwyd grant gan y Senedd i gomisiynu asiantaeth i gynnal asesiadau ychwanegol, a disgwylir adroddiad archwilio mewnol ar y gwasanaeth ym mis Mehefin 2024.

## Gofal Dementia Arbenigol

Mae'r galw cynyddol am ofal dementia yn heriol, ac mae angen gwneud mwy i sicrhau fod cartrefi gofal y sir yn ymdopi â'r pryder cynyddol hwn. Er gwaethaf buddsoddiad i gynyddu'r cyflenwad o welyau dementia arbenigol, gyda niferoedd wedi mwy na dyblu dros y pum mlynedd diwethaf, gydag oddeutu **50** o unigolion yn parhau ar restrau aros ar hyn o bryd.

Tanlinella hyn yr angen am welliannau parhaus mewn gofal dementia arbenigol i fodloni'r galw cynyddol. Edrychir ar gynnal adolygiad o'n holl gartrefi preswyl yn ystod 2024/25.

# Pa wahaniaeth a wnaed?

### Stori Martin

Derbynia Martin gefnogaeth gan y Gwasanaeth Iechyd Meddwl. Dyma lythyr anfonodd er mwyn diolch am gymorth y gwasanaeth, gan egluro'r gwahaniaeth a wnaed i'w fywyd:

“ ***Fy enw i yw Martin ac rwy'n dioddef o iselder a phryder difrifol. Mae cymysgu gyda phobl yn peri straen i mi gan wneud i mi bigo a thynnu fy ngwallt allan. Doedd gen i ddim ffrindiau - dim ond fy chwaer fel cymorth. Roedd fy mywyd yn unig ac roedd y teimlad o beidio â chael unrhyw un a oedd yn gofalu amdanaf, ar wahân i fy chwaer, yn llethol. Byddwn yn eistedd yn fy nhŷ ac yn gwrando ar gerddoriaeth ar fy mhen fy hun.***

***Pan ymunais â'r grŵp garddio am y tro cyntaf roeddwn hefyd yn gwirfoddoli mewn siop elusen. Aeth y siop yn ormod i mi ymdopi ag ef gan fy mod yn cael trafferth wynebu pobl. Pan roddais y gorau i helpu yno mi oeddwn yn unig iawn. Fe'm hanogwyd i gario ymlaen gyda'r grŵp garddio gan ein bod yn griw bach a neb yn rhoi pwysau arnaf. Rhoddwyd croeso i mi. Roedd garddio yn helpu lleihau fy straen a diflannodd y teimlad nad oeddwn yn gwneud gwaith gan fy mod yn gallu gweld y planhigion yn tyfu.***

***Yna, cefais ddiagnosis o ganser (stage 4) a dywedwyd wrthyf mai dim ond ychydig flynyddoedd fyddai gennyf i fyw. Cefais gefnogaeth y grŵp yn ystod y cyfnod hwn a byddent yn anfon negeseuon testun i weld sut o ni.***

*[Awgrymodd y gweithiwr cymdeithasol]* ***fy mod hefyd yn ymuno â'r grŵp cerdded i'm helpu i gryfhau ac fe gefais sicrwydd mai dim ond teithiau cerdded byr y byddem yn eu gwneud i ddechrau. Mae mynd allan ar deithiau cerdded wedi gwella fy mywyd heb os. Dwi'n mwynhau mynd i lefydd newydd, dysgu am bethau gwahanol, a gwneud ffrindiau o fewn y grŵp. Mae fy ymgynghorydd iechyd ar ward Alaw wedi dweud bod y teithiau cerdded wedi cryfhau'r esgyrn yn fy nghoesau, lle mae rhywfaint o'r canser.***

***Cefais fynd i gyngerdd yn ddiweddar gydag aelod arall o'r grŵp cerdded, rhywbeth nad oeddwn i wedi ei wneud ers blynyddoedd. Cawson ni fwyd cyn mynd i'r cyngerdd ac yn ddiweddarach daeth fy chwaer i nôl fi. Mae'r grŵp wedi fy annog i ddilyn fy angerdd o ddysgu sut i chwarae'r piano, a byddan nhw'n gwrando arna i'n siarad am y peth. O fewn y grŵp dw i'n teimlo'n ddiogel, gallaf siarad am fy nheimladau, ac mae wedi bod yn gymaint o gefnogaeth i mi.***

***Dw i'n gobeithio parhau gyda'r grwp garddio a cherdded cyn hired ag y gallaf. Dw i'n teimlo'n hapus ac, am ddau ddiwrnod o'r wythnos, mae gennyf rywbeth i edrych ymlaen ato.*** ”

## Pa gynnydd a wnaed yn erbyn yr addewidion a nodwyd yn adroddiad llynedd?

| Addewidion llynedd | Cynnydd |
|---|---|
| Cychwyn ar y gwaith adeiladu i addasu Canolfan Dolfeurig yn Nolgellau er mwyn cefnogi unigolion ag anableddau dysgu. | Fe gymeradwywyd y cais cynllunio ar gyfer Dolfeurig yn ffurfiol ym mis Tachwedd 2023.<br><br>Bu oedi tra yn aros am benderfyniad terfynol y Parc Cenedlaethol, fodd bynnag, ar adeg llunio'r adroddiad hwn roedd yr Adran ar yn mynd allan i gyfnod tendro. Ar ôl penodi contractwr bydd gwaith yn cychwyn ar y safle, gyda'r bwriad o gwblhau erbyn Haf 2025. |
| Cryfhau ein gwasanaethau sicrwydd ansawdd i sicrhau cefnogaeth ddigonol i ddarparwyr gofal i'w helpu i gynnal gwasanaeth o safon i drigolion Gwynedd | Er na dderbyniwyd adnodd ychwanegol, fe welodd y gwasanaeth gynnydd o ganlyniad i addasu trefniadau gwaith o fewn y tîm.<br><br>Cynhaliwyd ymweliadau cyson i fonitro cartrefi gofal y sir. Cafodd nifer fechan o gartrefi eu hystyried o dan y drefn 'Pryderon Cynyddol' a hynny am resymau amrywiol, gan gynnwys diffyg rheolaeth, problem dogfennaeth, a diffyg trosolwg.<br><br>Bychan yw'r tîm ac felly mae'n rhaid blaenoriaethu'r gwaith ac nid yw'n bosib ymweld â phob darpariaeth, yn enwedig yn y gwasanaethau gofal cartref. Dibynnir ar adroddiadau penodol ynglŷn ag ansawdd y gofal yn y maes hwnnw. |
| Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan. | Mae rhai plant mewn gofal sydd gydag anghenion dwys a chymhleth yn gorfod gadael y sir neu Gymru er mwyn derbyn y ddarpariaeth briodol.<br><br>Yn anffodus yn ystod 2023/24 bu'n rhaid hefyd defnyddio trefniadau lleoliadau heb gofrestriad (OWR) ar gyfer **5** o bobl ifanc. Yn hanesyddol mae'r defnydd o drefniadau o'r fath wedi bod yn brin iawn ac adlewyrcha'r cynnydd yma y sefyllfa yn genedlaethol erbyn hyn, gyda'r mwyafrif, os nad pob awdurdod yn cael eu gorfodi i sicrhau trefniant o'r fath oherwydd diffyg lleoliadau cofrestredig ar draws y Deyrnas Unedig.<br><br>Gwelir felly angen dybryd am ddarpariaeth leol er mwyn sicrhau cartref priodol i'r plant sydd yng ngofal y Cyngor. Yn fis Mawrth 2024 prynwyd yr eiddo cyntaf er mwyn ei droi yn gartref grŵp bychan ar gyfer hyd at dau blentyn. Gobeithir penodi rheolwr yn fuan yn 2024/25 er mwyn agor y cartref cyn diwedd y flwyddyn. Parha hefyd gyda'r gwaith o chwilio am eiddo neu safle eraill er mwyn datblygu rhagor o gartrefi. |

## Addewidion 2024/25

Bydd y Cyngor yn:

- Rhoi'r Cynllun Gwella Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Mon ar waith.
- Lansio'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl newydd yn mis Mai 2024.
- Penodi contractwr er mwyn cychwyn y gwaith adeiladu ar y Ganolfan Dolfeurig newydd yn Nolgellau.
- Agor Cartref Grŵp Bychan cyntaf y sir, ac yn edrych i ddatblygu rhagor o gartrefi cyffelyb.

*Mae rhestr lawn o flaenoriaethau strategol ar gyfer y flwyddyn nesaf i'w gweld yn: Gwynedd Ofalgar*

# GWYBODAETH BELLACH

## Cwynion a sylwadau

Yn anffodus, mae rhai achosion yn codi pan fydd pethau'n mynd o'i le ac nad ydym yn darparu gwasanaeth o'r safon uchel ddisgwyliedig. Mae trefn gwynion statudol yn ei lle er mwyn sicrhau ein bod yn derbyn adborth, ac yn ymateb i unrhyw bryderon fel nad ydym yn ail-adrodd camgymeriadau.

Gweler isod grynodeb o niferoedd y cwynion ffurfiol ar gyfer 2023/24:

| | **Cwyn Ffurfiol Cam 1** | **Cwyn Cam 2** (Ymchwiliad gan Ymchwilydd Annibynnol a Pherson Annibynnol) | **Ombwdsman** |
|---|---|---|---|
| **Oedolion** | 22 | 2 | 0 |
| **Plant** | 13 | 4 | 0 |

Bydd yr adroddiad cwynion blynyddol llawn yn ymddangos ger bron y Pwyllgor Craffu Gofal ym mis Medi 2024 a bellach, mae trefniadau mewn lle hefyd i gyhoeddi ein hadroddiad cwynion a sylwadau i ar y wefan, fel eu bod ar gael yn rhwydd i unrhyw un ei ddarllen: **Adroddiad Blynyddol: Cwynion**

## Arolygiadau ac adolygiadau

Parhaodd y cyswllt agos gydag Arolygaeth Gofal Cymru (AGC), Estyn ag Archwilio Cymru yn ystod 2023/24, ac fe gynhaliwyd sesiwn gweithdy blynyddol arferol hefo cynrychiolwyr o'r sefydliadau.

Amlygodd AGC pum prif risg sef, sefyllfa gofal cartref, cynllun gweithlu i recriwtio a chadw staff, cynnydd yn y galw am wasanaethau a chymhlethdod yr anghenion, digon o gartrefi i blant sy'n derbyn gofal a chyllidebau. Mae'r adroddiad blynyddol eisoes wedi ceisio manylu ar yr hyn bydd y Cyngor wedi ac yn ei wneud i fynd i'r afael â'r risgiau hyn.

Fe gyhoeddodd AGC hefyd ei adroddiad ar yr Adolygiad Cyflym o Drefniadau Amddiffyn Plant (a gynhaliwyd efo'r gwasanaeth Mawrth 2023) ac roedd yr adborth yn gadarnhaol ac yn dangos ansawdd y gwaith a wneir. Manylir hefyd ym mhennod Lles am yr adolygiad a gynhaliwyd â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid fan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. Gellir darllen yr adolygiad llawn yma: Adolygiad Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn

Bu achosion hefyd yn ystod y flwyddyn o droseddu yn erbyn plant a disgwylir y bydd adolygiadau yn cael eu cynnal drwy'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn ystod 2024/25. Mae'n bwysig ein bod fel gwasanaethau cymdeithasol yn dysgu'n gyson o'r digwyddiadau ac yn gwella'n gwasanaethau i sicrhau diogelwch y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

## Dolenni gwybodaeth bellach

Mae'r adran olaf hon yn rhestru lleoedd i gael mwy o wybodaeth am rai o'r pethau y sonnir amdanyn nhw yn yr adroddiad hwn.

- Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28
- Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd
- Trefn gwynion a chanmoliaeth
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn
- Pwyllgor Craffu Gofal
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru
- Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
- Arolygaeth Gofal Cymru
- Dewis Cymru